

Cyflawni gyda'n cymunedau...

Adroddiad Blynyddol
Cartrefi Cymunedol Gwynedd
2010/11



Croeso



Mae'n bleser gennyf ysgrifennu cyflwyniad i Adroddiad Blynyddol cyntaf Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Mae'n anodd credu na ddaeth CCG i fodolaeth tan Ebrill 2010 gan fod cymaint wedi ei gyflawni ers hynny. Fel gydag unrhyw gorff newydd fe gymerodd

y chydig o amser i'r darnau ddisgyn i'w lle a rhaid oedd goresgyn rhai anawsterau anochel. Mae ambell swydd yn dal heb ei llenwi a braf fyddai meddwl bod rhywun sy'n darllen yr adroddiad hwn yn awyddus i ymuno â'r tîm.

Yr hyn sy'n bwysig i mi fel Cadeirydd ac i weddill aelodau'r Bwrdd Rheoli yw fod yr addewidion a roddwyd i'r tenantiaid cyn trosglwyddo'r stoc tai yn cael eu gwireddu.

Dylai pawb yn yr oes hon allu mwynhau cartref diogel, cynnes a chyfforddus a hynny am rent y gallant ei fforddio. Y prif flaenoriaeth yn y blynyddoedd cynnar felly yw sicrhau bod cartrefi sydd dan ein gofal yn cael eu gwella i safon. Mae'r gwaith sylweddol ar ein tai hefyd yn golygu cyflogi gweithwyr lleol ac yn hwb mawr i economi Gwynedd.

Blaenoriaeth arall yw sicrhau bod y gyndogaeth yn heddychlon a diogel i fyw ynnddi. Fel y gwelwch chi yn yr adroddiad hwn, rydym yn cyflogi wardeniaid cymunedol ac yn gwario'n helaeth ar wella amgylchedd ein stadau. Nid ydym yn fodlon dioddef unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd ein tenantiaid neu breswylwyr cyfagos.

O'r cychwyn mae'n nod gennym i gael cymaint â sy'n bosibl o denantiaid i gyfranogi yn ein gwaith. Hoffwn dalu teyrnged i'r tenantiaid sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol ar y Bwrdd Rheoli, y Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr, fforymau a'r cyfarfodydd niferus eraill sy'n cael eu cynnal. Trwy wrando ar ein tenantiaid y medrwn wella ein gwasanaethau. Byddai'n braf gweld mwy o denantiaid yn fodlon mynegi barn, naill ai mewn cyfarfodydd neu trwy holiaduron. Braf hefyd fyddai cael mwy o denantiaid yn gyfranddalwyr

o Cartrefi Cymunedol Gwynedd ac felly'n dod yn rhan annatod o'r corff ac yn gallu dylanwadu arno.

Hoffwn ddiolch o galon i aelodau'r Bwrdd Rheoli am eu cefnogaeth, eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'r gwaith. Maent yn rhoi o'u hamser yn gwbl wirfoddol. Mae'r cyfrifoldeb yn fawr ond mae'r boddhad o weld gwelliant yn amgylchiadau byw y tenantiaid yn dâl digonol.

Diolch hefyd i'r staff o dan arweiniad medrus ein Prif Weithredwr, Ffrancion Williams, am eu gwaith caled yn gosod Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar sylfaen gadarn mewn amser byr, a hynny gydag ymroddiad a thrylwyredd i'w edmygu.

John Glyn Jones, Cadeirydd.

Ein Gweledigaeth

Bod y prif ddarparwr cartrefi fforddiadwy yng Ngwynedd gyda phwyslais ar y gymuned, gan ddefnyddio ein gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau i ddatblygu a chyfoethogi cymunedau lleol a gwarchod ein hamgylchedd a'n diwylliant unigryw.

Ein nod yw bod yn deg ac agored, adeiladu perthynas ar sail parch a gweithredu mewn modd sy'n dangos uniondeb.

Gwerthoedd:

- Effeithiol a dibynadwy – mae'n bwysig ein bod yn cadw at ein gair ac yn gwneud beth rydym yn ddweud y byddwn yn ei wneud
- Rydym yn hyblyg ac yn darparu gwasanaethau y mae pobl eisiau mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw
- Mae CCG yn darparu gwasanaethau sy'n hygyrch ac yn lleol
- Rydym yn deg ac yn onest gyda'n cwsmeriaid
- Rydym yn anelu at fod yn arloesol ac yn croesawu ffyrdd newydd o weithio er mwyn cynyddu dewis
- Rydym yn ymroddedig i ddatblygu ac amddiffyn economi a diwylliant Gwynedd

0300 123 8084

www.ccgwynedd.org

ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

Y gymuned a'n cwsmeriaid ... wrth galon ein busnes

Mae rhoi llais i'n tenantiaid a'u cymunedau yn holl bwysig i ni a'r ffordd rydym yn gweithredu.

O'r Bwrdd Rheoli i'r amrywiol fforymau, mae llais y tenant i'w glywed yn glir ar draws CCG. Mae hyn wedi bod yn flaenoriaeth i ni ers y cychwyn, gyda rhan fawr o'n Dogfen Gynnig yn amlinellu sut y bydd ein cwsmeriaid yn gallu dweud wrthym yn union sut wasanaeth mae nhw am dderbyn.

Ers Ebrill 2010 mae llawer iawn o waith wedi ei wneud i lunio fframwaith sy'n ei gwneud hi'n hawdd i denantiaid gymryd rhan mewn pa bynnag ffordd sy'n eu siwtio nhw. Bellach mae sawl ffordd o gyfranogi:

- **PARTNERIAETH TENANTIAID A PHRESWYLWYR**
Y Bartneriaeth yw'r prif gorff sy'n gweithredu ar ran tenantiaid a phreswylwyr gyda CCG.

- **FFORYMAU TENANTIAID**

Fforwm Cyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - Mae'r aelodau'n cydweithio â CCG ar bob agwedd o'r gwaith buddsoddi gan gynnwys dewis contractwyr a chyflenwyr.

Fforwm Gwasanaethau Cwsmer o Safon - Mae'r fforwm hwn yn edrych ar bob gwasanaeth er mwyn sicrhau fod gwasanaethau CCG yn seiliedig ar wir anghenion y cwsmer.

Fforwm Budd Cymunedol - Rydym wedi ymrwymo i wella cymunedau a phwrpas y fforwm hwn yw sicrhau bod gweithgareddau CCG yn gweithio tuag at y nod yma.

Fforwm Cyfathrebu - Mae'r fforwm yma'n edrych ar holl waith cyfathrebu CCG gan gynnwys Newyddion CCG a'r wefan.

Fforwm Cynnal a Chadw - Fel mae'r enw'n awgrymu gwaith hwn yw edrych ar wasanaethau cynnal a chadw.

- **PANEL CWSMERIAID**

Nid yw mynychu cyfarfodydd yn siwtio pawb, dyna pam rydym wedi sefydlu panel cwsmeriaid i denantiaid allu fynegi barn dros y ffôn, e-bost neu drwy holiaduron byr. Mae dros 150 o aelodau ar y panel a byddwn yn ymgynghori â nhw ar nifer o faterion.

- **CYFRANDDALWYR**

Mae gan CCG gyfranddalwyr, ac am bunt (£1), sef pris cyfran, gall tenant gael yr hawl i bleidleisio yn y cyfarfod blynyddol.

- **SESIYNAU GALW-MEWN**

Mewn sawl ardal ar draws y sir mae sesiynau galw-mewn misol gyda'r wardeniaid bro. Mae'n gyfle i denantiaid drafod materion sy'n eu pryderu.

Rydym yn cynnig hyfforddiant i'r rheiny sydd am ddatblygu eu sgiliau i gyfrannu mewn fforwm neu bwyllgor, a gallwn gynnig cymorth ariannol tuag at drafnidiaeth a gofal plant.

Ein neges yw, os oes gan denant rhywbeth i ddweud ac am gael y cyfle i fynegi barn mae pob math o gyfleoedd ar gael a'r gobaith yw bod rhywbeth i siwtio pawb.

Dod at ein gilydd

Rydym yn awyddus i fynd gam ymhellach pan mae'n dod at gyfranogiad tenantiaid a bod wrth galon ein cymunedau. Dyna pam eleni, i nodi blwyddyn ers sefydlu CCG, cynhaliwyd dau ddiwrnod o hwyl teuluol yn ardaloedd Bangor a Dolgellau.

Daeth cannoedd o denantiaid CCG at ei gilydd i fwynhau bob math o weithgareddau ac i gwrdd â staff a darpar gyflenwyr ceginau ac ystafelloedd ymolchi. Roedd y ddau ddigwyddiad hefyd yn gyfle i denantiaid ddweud wrthym beth oedd eu barn am y cyflenwyr - ac roedd eu sylwadau yn cael eu bwydo yn ôl ac yn chwarae rhan bwysig wrth i ni ddewis cyflenwyr ar gyfer rhaglen fewnol SATC.



Cyflawni ein haddewidion

Roedd y Ddogfen Gynnig 'Eich Cartref Eich Dewis' yn sail i'r bleidlais lwyddiannus i drosglwyddo'r stoc i CCG.

Mae'r ddogfen yn cynnwys 170 o addewidion unigol ac ers diwrnod cyntaf CCG rydym wedi rhoi cynlluniau ar waith i gyflawni'r addewidion rheiny. Ar ddiwedd ein blwyddyn gyntaf rydym yn falch o adrodd bod 83 o'r addewidion yma wedi eu gwireddu, a'n bod ni'n gweithio'n galed i sicrhau fod y gweddill yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen.

Mae'r addewidion sydd eisoes wedi eu cyflawni'n cynnwys:

- Darparu cyfleon prentisiaeth fodern o fewn y gwasanaeth cynnal a chadw
- Sefydlu Partneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr
- Ei gwneud yn haws i denantiaid gysylltu â ni
- Sefydlu Cronfa Fuddsoddi Cymunedol gwerth £250,000 y flwyddyn
- Penodi wardeniaid cymunedol led led y sir

Rydym hefyd wedi gwarchod yr hawliau oedd gan denantiaid gyda'r Cyngor ac mae'r addewid rhent wedi ei wireddu.



CYFLAWNI ADDEWIDION - LLEIHAU YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Mae ein tîm Gwasanaethau Bro wedi darganfod bod mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn golygu mynd at wraidd y problem ac addysgu plant a phobl ifanc am effeithiau ymddygiad o'r fath ar gymunedau ac unigolion.

Dyma sydd tu cefn i gynllun Wardeniaid Ifanc CCG. Dros y gwyliau haf eleni cafodd 15 o blant blwyddyn 6 o amrywiol ysgolion y cyfle i fynychu cyfres o weithdai a sesiynau ar hyd a lled y sir gyda'n Wardeniaid Cymunedol. Nod y cynllun chwe wythnos oedd annog y plant i barchu a chymryd rhan lawn yn eu cymunedau fel y gallent fod yn falch o'r ardal y maent yn byw a chwarae ynddi.

Fel rhan o'r cynllun roedd y grŵp yn cael gwneud nifer o weithgareddau gan gynnwys sesiwn ymwybyddiaeth cyffuriau ac alcohol, hyfforddiant cymorth cyntaf, ymweld â Pentre Peryglon yn Llanellwyr, sesiwn gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ogystal â gwneud gwaith garddio a chasglu ysbwriel ar ein stadau.

Mae wedi bod yn brofiad positif i wardeniaid CCG. Dywedodd Christian Hughes, Warden ardal Caernarfon: "Mae'r ymateb gan yr ysgolion a'r plant wedi bod yn wych ac rydw i wedi mwynhau gweithio efo nhw dros yr haf. Roedd yn gyfle nid yn unig iddyn nhw ddysgu sgiliau newydd ond hefyd i wneud ffrindiau dros y gwyliau. Roedd yn gyfle gwych i fi i ddod i adnabod rhai o'n tenantiaid yn well ac i ddysgu mwy am y problemau sy'n wynebu'r ardal rydw i yn gweithio ynddi."

Ar ddiwedd y cynllun cafodd y plant eu gwobrwyo gyda diwrnod o hwyl ym Mharc Gelli Gyffwrdd, Felinheli a seremoni wobrwyo yng ngwesty Meifod, Bontnewydd, ble cawsant eu cyflwyno gyda thystysgrifau i nodi'r hyn oeddent wedi ei gyflawni a'i ddysgu.

Adeiladu dyfodol gwell



ECONOMI GWYNEDD YN ELWA

Hyd yn oed cyn trosglwyddo roedd cyfrannu at adfywio economi Gwynedd yn uchel iawn ar ein rhestr o amcanion, ac rydym yn parhau i fod yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb a'r rôl sylweddol y gallwn ei chwarae yn economi gogledd orllewin Cymru.

Fel sawl ardal arall, yr angen i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) oedd y sbardun i'r newid yma yng Ngwynedd. Ac yn sgil hynny y daw buddsoddiad o £136 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd, a £446 miliwn dros 30 mlynedd.

Digon hawdd gweld, felly, bod sefydlu CCG nid yn unig yn golygu gwell cartrefi i denantiaid ond hefyd yn mynd i roi hwb sylweddol i economi Gwynedd. Mae'n cynnig cyfleoedd busnes newydd ac yn creu swyddi, a gyda dim ond ychydig dros flwyddyn ers trosglwyddo, mae'r buddsoddi wedi dechrau a rhai o'r addewidion ar fudd economaidd eisoes yn cael eu gwireddu.

Mae sicrhau bod cymunedau ac economi'r sir yn elwa yn rhan allweddol o'n gweledigaeth ni fel busnes. I sicrhau bod hyn yn digwydd rydym wedi cyflwyno system gaffael arloesol sy'n cynnig mwy o sicrwydd a chyfle i fusnesau cynhenid Gwynedd.

Mae'r model yn unigryw i CCG ac mae wedi ei greu i ddatblygu'r economi leol. Mae'r fframwaith arferol sy'n cael ei ddefnyddio gan gymdeithasau ar gyfer rhaglenni gwella yn golygu defnyddio un neu ddau o gontractwyr mawr i gwblhau'r holl waith. Ond, o'r cychwyn, rydym wedi penderfynu peidio â dilyn y trywydd traddodiadol hwn.

Mae model CCG yn gweithio drwy rannu gwaith buddsoddi SATC, gyda bron i hanner y cytundebau ar gael i gwmnïau llai yn ogystal â bod ag un prif gontractwr.

Roedd y meini prawf cyn-gymhwyso i dendro ar gyfer cytundebau SATC wedi eu symleiddio i annog cwmnïau lleol i ymgeisio. Er mwyn hwyluso'r drefn yma mae CCG wedi cyflogi swyddogion yn uniongyrchol i reoli'r cytundebau a'r gadwyn gyflenwi ac i roi cefnogaeth i gwmnïau llai i gyflawni ein gofynion.

CYTUNDEBAU GWERTH BRON I £9 MILIWN I GWMNÏAU'R GOGLEDD



"Rydym yn falch iawn o gael y cyfle i fod yn rhan o gynllun mor fawr ac unigryw yn enwedig gan fod y gwaith yma yn lleol. Bydd y cytundeb hwn yn helpu ni i sicrhau swyddi nifer o weithwyr yn y cwmni a chreu swyddi newydd." Jason Jones, Falconer Electrical Ltd, Penrhyndeudraeth

Mae pum cwmni o ogledd Cymru wedi ennill cytundebau gwerth bron i £9 miliwn gyda CCG yn uniongyrchol o ganlyniad i waith SATC. Mae'r cwmnïau'n cynnwys G M Jones o Lanrwst; Falconer a Gelli Civil Engineering o Benrhyndeudraeth; Evans Wilson & Evans ac Aled Jones o Gaernarfon.

Gyda'r pum cwmni llwyddiannus yn derbyn cytundebau pedair blynedd yn hytrach na blwyddyn, mae'n rhoi sicrwydd hir dymor, yn eu galluogi i gyflogi mwy o staff, i gynnig hyfforddiant a phenodi prentisiaid, yn ogystal â chyfle i dyfu eu busnesau.

Gwneud gwelliannau mewnol ac allanol i gartrefi CCG fydd cwmni adeiladu G M Jones Ltd o Lanrwst. Dywedodd Jenny Jones, eu Rheolwraig Masnachol: "Fel cwmni o ogledd Cymru rydym wrth ein boddau ein bod wedi llwyddo i ennill y cytundeb yma. Rydym yn edrych ymlaen at wneud y gwaith Safon Ansawdd Tai Cymru a'r cyfleoedd ddaw yn sgil y fframwaith hwn i'n busnes ni a'r gymuned leol. Mae'r cytundeb yn rhoi sicrwydd i ni fel busnes yn ogystal â chynnig swyddi a hyfforddiant i nifer o weithwyr medrus lleol. Rydym yn hynod o falch o ennill y cytundeb ac yn edrych ymlaen at gyfnod newydd yn G M Jones Ltd."

Gwneud Gwahaniaeth

CEGIN NEWYDD KAREN

Mae rhaglen welliannau Safon Ansawdd Tai Cymru CCG yn cynnwys gosod 5,000 cegin fodern, 4,200 o ystafelloedd ymolchi, gosod ffenestri a drysau newydd mewn 2,500 o gartrefi, yn ogystal â gwaith uwchraddio mewnol ac allanol.

Un sydd eisoes wedi gweld budd o'r gwaith ac sydd wrth ei bodd gyda'i chartref ar ei newydd wedd yw Karen Williams o Lanllechid ger Bethesda.

"Nesh i erioed feddwl y baswn i'n deud hyn, ond dwi'n edrych ymlaen at fynd mewn i'r gegin rŵan, yn edrych ymlaen i wneud bwyd a hyd yn oed yn edrych ymlaen i'w ll'nau hi - dwi wrth fy modd."

Mae Karen, a ddaw'n wreiddiol o Fethesda, daflad carreg i ffwrdd o Lanllechid, yn rhannu ei chartref gyda'i gŵr Arfon, a'u plant Liam 20, Ceiran 13 a Sian Marie sy'n ddwy.

Wedi byw yn ei chartref ers 16 mlynedd, dyma'r tro cyntaf i dŷ pedair llofft Karen dderbyn gwelliannau o'r fath.

"Roedd y gegin yn hen ofnadwy roedd yna olwg arni a deud y gwir. Roedd yna lawr brics coch hen ac oer a mi oedd cyflwr y walia' yn ofnadwy," eglura Karen. "Doedd hi ddim yn stafell neis iawn o gwbl. Do ni ddim yn licio bod ynddi a doedd o ddim ots faint o'n ni'n ei ll'nau hi - doedd hi byth yn edrych yn lân!"

"Ond ma'r gegin newydd yn ffantastig. Roedd yna ddigon o ddewis drysau a worktops a roedd hi'n neis cael dewis pa gegin o'n i eisiau."

Ynghyd â chael cegin newydd, mae Karen wedi cael tân trydan newydd ac ystafell ymolchi gyda chawod uwchben y bath.

"Roedd yr ystafell ymolchi mor hen â'r gegin! Wrth i'r gweithwyr dynnu'r teils oddi ar y wal, roedd darnau o'r wal yn dod lawr hefyd! Mae cael shower wedi gneud cymaint o wahaniaeth i ni fel teulu, efo pump ohona ni yn y tŷ ma' hi'n lot cynt i ni gael shower yn lle bo ni i gyd yn gorfod disgwyl ein twrn i gael bath!"

Fe gafodd yr holl welliannau eu gwneud dros gyfnod o dair wythnos. Tair wythnos llawn llanast a llwch, ond yn llawn werth y drafferth yn ôl Karen.

"Oedd, mi oedd yna lanast, ond fel ddudodd rhywun wrtha i, fedrwch chi ddim gwneud omlet heb dorri wy! Roedd petha' yma ar draws ei gilydd am dipyn, a hefo pump ohona ni yn y tŷ roedd hi'n gallu bod yn anodd trio gneud bwyd ag ati, ond mi o'n ni'n disgwyl llanast felly mi oedd hi'n iawn."

"Mi oedd hi'n haws cael y gwaith wedi ei neud efo'i gilydd achos fod y llanast i gyd yr un pryd a mi oedd pawb yn mynd o'ma efo'i gilydd. Ond roedd yr holl waith a'r llanast werth o. Dwi'm yn meddwl y gwnâi byth symud o'ma, fama fyddai beryg achos dwi wrth fy modd efo fy nghartref."



Karen Williams gyda'i merch Sian Marie



Cyfleoedd lleol i bobl Gwynedd

Fel un o gyflogwyr mwyaf yr ardal a chorff sy'n cymryd ei gyfrifoldeb cymdeithasol o ddirif, mae'n bwysig i ni ein bod yn gallu cynnig swyddi o safon a chyfleodd hyfforddiant lleol.

Mewn cyfnod sydd wedi gweld cyrff cyhoeddus a phreifat yn torri'n ôl oherwydd y wasgfa economaidd, mae CCG wedi bod yn creu swyddi newydd. Yn Ebrill y llynedd fe drosglwyddodd 170 o staff o Gyngor Gwynedd i CCG. Ers hynny rydym wedi bod yn recriwtio a bellach rydym yn cyflogi tua 240 o bobl mewn 10 lleoliad ar draws y Sir.

Heb os, mae'r rhan fwyaf o'n swyddi newydd wedi eu creu o ganlyniad i raglen fuddsoddi SATC a thrwy gydol y rhaglen welliannau byddwn yn gweithio'n galed i wneud y mwyaf o'r cyfle unigryw hwn. Daw y cyfleoedd o sawl cyfeiriad yn sgil y buddsoddiad; fel swyddi uniongyrchol gyda CCG, swyddi a chytundebau gyda'n contractwyr, a chyfleoedd am hyfforddiant.

Ond, nid o ganlyniad i waith SATC yn unig y mae CCG yn gallu chwarae rhan bwysig yn y farchnad swyddi yng Ngwynedd. Yn ddiweddar rydym wedi bod yn recriwtio ar bob lefel, gan gynnwys prentisiaid i ymuno â'n tîm cynnal a chadw, wardeniaid tai gwarchod, swyddogion adnoddau dynol, cyfarwyddwr gwasanaethau corfforaethol a chyfarwyddwr cynorthwyol. Ac mae ein tîm yn parhau i dyfu.

Yn ddiweddar lawnsiwyd ymgynghoriad i'n cynllun iaith sy'n amlinellu ein polisi i gyflogi staff dwyieithog. Mae'r cynllun sy'n parhau i fod ar ffurf drafft eisoes wedi cael ei groesawu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n cydnabod ein

hymrwymiad fel corff i weithredu yn ddwyieithog a chynnig cyfleoedd i bobl yr ardal weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgil hyn hefyd mae'n golygu bod ein cwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth o safon yn yr iaith o'u dewis.

Rhan bwysig arall o ddatblygiad ein staff yw cyd-weithio â sefydliadau addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd. Un enghraifft o'r cydweithredu hwnnw yw'r cwrs aml-grefft rydym wedi bod yn gynnig i weithwyr ar y cyd â Choleg Menai.

Mae 12 o grefftwyr CCG eisoes yn cymryd rhan yn y cwrs gan ddysgu sgiliau fel saernïo, plymio, a phlastro. Wrth fynychu'r cwrs am ddiwrnod yr wythnos mae'r criw yn cael datblygu eu sgiliau tra'n parhau i weithio. Ar y diwedd byddent yn derbyn cymhwyster Lefel 2 NVQ.

Mae datblygu gweithlu lleol yn flaenoriaeth i ni ac yn rhywbeth 'rydym yn ymrwymo iddo yn ein Dogfen Gynnig. Wrth i'r rhaglen fuddsoddi fynd yn ei blaen ac wrth i ni ddatblygu fel corff y gobaith yw y byddwn yn denu gweithwyr o safon ac yn dod yn gyflogwr deniadol ac yn un y mae pobl eisiau gweithio iddo.



Llywodraethu effeithiol

Mae Bwrdd Rheoli CCG yn cynnwys 12 aelod gwirfoddol, sef 4 aelod tenant, 4 aelod annibynnol a 4 aelod wedi eu henwebu gan Gyngor Gwynedd. Mae'r aelodau gwahanol yn dod ag ystod eang o wybodaeth a phrofiad i CCG er mwyn rhoi arweiniad strategol i sicrhau ein bod yn datblygu fel busnes.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r Bwrdd wedi sefydlu pedwar is-bwyllgor gwahanol, sef Cyllid, Archwilio, Materion Gweithredol ac Adnoddau Dynol. Mae sefydlu'r pwyllgorau yma'n golygu fod gan y Bwrdd fwy o amser i ganolbwyntio ar faterion strategol pwysig.

Cafodd tri 'Diwrnod i Feddwl' eu trefnu ar gyfer aelodau'r Bwrdd dros y 12 mis diwethaf er mwyn rhoi'r cyfle iddynt drafod materion y tu allan i gyfarfodydd arferol.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal ymddygiad a threfn llywodraethu rhagorol, ac mae CCG bellach wedi arwyddo Siarter Llywodraethu Da, Cartrefi Cymunedol Cymru.

AELODAETH Y BWRDD 2010 – 2011

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd etholiad ar gyfer dwy sedd tenantiaid ar y Bwrdd. Roedd yr ymateb yn wych gyda dros 1,200 o denantiaid yn pleidleisio ac fe etholwyd Richard Humphreys a Nerys Williams.

Aelodau tenant

- Margaret Bracegirdle (Is-Gadeirydd)
- Alan Moseley
- Val Jones (wedi ymddiswyddo)
- John Owen (wedi ymddiswyddo)

Aelodau annibynnol

- John Glyn Jones (Cadeirydd)
- Vicky Norton
- Dean Swindell
- Alun Williams (ymddeol yn y Cyfarfod Blynnyddol)

Aelodau Cyngor Gwynedd

- Brian Jones
- Anne Lloyd-Jones
- John Wyn Williams
- Dewi Lewis (wedi ymddiswyddo)

CYFRANDDALWYR

Un o'r addewidion yn y Ddogfen Gynnig oedd fod pob tenant yn gallu gwneud cais i fod yn gyfranddaliwr yn CCG. Mae bod yn gyfranddaliwr yn rhoi'r hawl i'r unigolyn bleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol ac yn rhoi llais a dylanwad i denantiaid ar y ffordd mae CCG yn gweithredu. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn mynd ati i geisio cynyddu nifer ein cyfranddaliwyr.

RHEOLEIDDIO

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Fframwaith Rheoleiddio newydd ar gyfer Cymdeithasau Tai sy'n pwysleisio'r angen i baratoi Hunan Asesiad ar gyfer nifer o ganlyniadau cyflawni. Mae'r asesiad yn gofyn i ni edrych ar ein hyfywra ariannol, trefniadau llywodraethol a'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau.

Mae CCG nawr yn gweithio gyda Thim Rheoleiddio'r Cynulliad i sicrhau fod ein Hunan Asesiad yn adlewyrchiad teg o'n gwaith a'r gwasanaethau rydym yn gynnig i'n cwsmeriaid.





Francon Williams (Prif Weithredwr) a John Glyn Jones (Cadeirydd)

Perfformiad ariannol 2010/11

Cyfrif Incwm a Gwariant	£'m
Trosiant	25.964
Gwarged gweithredu	6.886
Gwarged ar weithgareddau cyffredin	6.148
Llog taladwy	0.866
Llif Arian	
Mewnlif arian net o weithgareddau	7.877
All-lif ar ôl buddsoddiad cyfalaf	(0.044)
Mantolen	
Net asedau sefydlog cyffyrddadwy	7.543
Rhwymedigaethau tymor hir net	0.000
Asedau net	6.155

Trosiant	£'m
Rhent tai, modurdai ac eiddo eraill	19.9
Costau gwasanaeth	0.4
Grant gan Lywodraeth Cymru	5.3
Eraill	0.4
	26.0

Gwariant	£'m
Gwasanaethau	1.9
Rheoli	9.6
Cynnal a chadw	7.4
Gwelliannau i'r stoc dai	5.7
Pryniant o asedau eraill	2.2
	26.8



Sut i gysylltu...

Prif Swyddfa

Uned 6 a 7
Llys Castan
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FH

0300 123 8084

www.ccgwynedd.org

ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

Cymdeithas Diwydiannol a Darbodus 30776R
Rhif Landlord Cofrestredig Cymdeithasol L152

SWYDDFEYDD ARDAL

Caernarfon

Siambr Buddug
Stryd y Goron
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SY

Pwllheli

14 Stryd Penlan
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5DH

Bangor

Bryn Llwyd
Coed Mawr
Bangor
Gwynedd
LL57 4SW

Dolgellau

Ffordd Aran
Fron Serth
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1LA

